Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Hydref 2006 October

Cylchlythyr/Newsletter

www.ygmg.com

Gwasanaeth Diolchgarwch / Harvest assembly

Mi fyddwn yn cynnal gwasanaeth diolchgarwch yn yr ysgol ar ddydd Iau yng nghwmni Arfon Wyn. Mi fydd pob dosbarth yn gwneud eitem a gofynnir am gyfraniad ariannol gan ddisgyblion blynyddoedd 3-6 tuag at 'Touch Trust' sydd wedi ei leoli yng Nghanolfan y Mileniwm. Gofynnir i ddisgyblion blynyddoedd 1 a 2 a'r Derbyn i ddod â phecynnau o basta a reis, bwydydd tin-byddant yn cael eu rhoi i fudiad Wallich Clifford sy'n helpu'r digartref yng Nghaerdydd.

There will be a Harvest assembly in school on Thursday led by Arfon Wyn and each class will be performing an item. There will be a collection for years 3-6 with proceeds donated to 'Touch Trust', a charity based in the Millenium Centre. Years 1 and 2 and the Reception pupils are asked to bring packets of pasta, packets of rice, tinned food, dried food etc which will be donated to the Wallich Clifford organisation which supports homeless people in Cardiff.

Jeans for Genes

Casglwyd £334 ar gyfer elusen Jeans for Genes eleni. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

£334 was raised the Jeans for Genes appeal this year. Thank you for your support.

Beiciau / Bikes

Rydym yn falch o weld cynifer o blant yn beicio i'r ysgol. Dylid cofio bod angen cadwyn a chlo ar y beiciau i gyd ac ni chaniateir i neb reidio beiciau ar dir yr ysgol.

We are pleased that many children are now cycling to school. All bikes must be locked if they are left in school. Also, in order to ensure safety, no bikes are to be ridden on site.

Ebost / Email

Mae tua 50 o rieni yn derbyn cylchlythyron yr ysgol ar ffurf e-bost. Os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr yma, yna cwblhewch y tabl isod. Cofiwch-byddwch yn derbyn copi papur hefyd!

Approximately 50 parents are now receiving school newsletters via email in addition to the paper copies. Please complete the slip below if you wish to be included in the group email.

Enw'r plentyn / Child's name _____

Cyfeiriad ebost / email address _____